

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Safonau Parcio



Canllawiau Cynllunio Atodol
i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd 22 Mehefin 2011



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**
**Pembrokeshire Coast
National Park**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parcio

Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Cynllun
Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd ar 22 Mehefin 2011

CYNNWYS

Statws a Pharatodau	2
Cefndir	2
Safonau Parcio'r Sir	3
1.4 Parthau Parcio Sir Benfro	4
2.1 Preswyl: Adeiladu o'r Newydd a Thrawsnewid Eiddo	6
2.2 Datblygiad Swyddfeydd	8
2.3 Datblygiad Siopau	9
2.4 Warysau Manwerthu a Garejys	11
2.5 Diwydiant a Warysau Diwydiannol	12
2.6 Mannau Adloniant	14
2.7.1 Gwestai a Bwyta	15
2.8 Sefydliadau Cymunedol	16
2.9 Sefydliadau Addysgol	17
2.10 Safonau Isaf Parcio Beiciau	18
3.1 Atodiad 1 - Ardaloedd Parth 1	20
3.2 Atodiad 2 - Pwysoli Gwasanaethau	21
3.3 Atodiad 3 - Maint Isaf Gofodau Parcio	22
3.4 Atodiad 4 - Cynllun ardaloedd parcio	23
3.5 Atodiad 5 - Mynediad i'r Anabl	24
3.6 Atodiad 6 - Baeau Cerbydau	26

1 Gofynion Parcio ar gyfer Datblygiadau Newydd

CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n manylu ar bolisiau Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol ar ffurf clir a chryno, gyda'r nod o gynghori ar safonau parcio ar gyfer datblygiadau newydd. Fe fydd y CCA hyn yn helpu aelodau'r cyhoedd, a swyddogion, mewn trafodaethau yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio, ac yn helpu swyddogion ac aelodau i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond gan iddynt gael eu mabwysiadu¹ Mae ganddynt ddylanwad sylweddol wrth benderfynu p'un ai y gellir rhoi caniatâd cynllunio i gais ai peidio. Mae yna adroddiad ar yr ymgynghoriadau, sy'n nodi sut ymgynghorwyd ar y Canllawiau, ar gael i'w ddarllen ar wefan yr Awdurdod².

1.1 Statws a Pharatodau

1.1.1 Mae Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2005) yn nodi y dylai CCA fod yn:

“fodd i nodi canllawiau thematig manylach neu ganllawiau yn ymwneud â safleoedd penodol o ran y ffordd y caiff polisiau CDLlau eu cymhwyso o dan amgylchiadau penodol neu mewn ardaloedd penodol.”

1.1.2 Paratowyd y CCA hyn yn unol â pholisiau cynllunio cenedlaethol a chanllawiau trafndiaeth cenedlaethol, gan gynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4, Chwefror 2011),
- Nodyn Cyngor Technegol 18 (Cymru): Trafnidiaeth (Mawrth 2007),
- Llawlyfr yr Adran Trafnidiaeth ar gyfer Strydoedd 2 (Medi 2010),
- Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau: 'Encouraging Walking' (Mawrth 2000).
- Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

1.2 Cefndir

1.2.1 Mae argaeledd lle i barcio ceir yn elfen allweddol wrth reoli'r defnydd o geir, ac mae'n ddylanwad mawr ar y dewis o ddulliau teithio. Mae cyfleusterau parcio ceir hefyd yn gallu cymryd lle sylweddol mewn

¹ Trwy benderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 22 Mehefin 2011.

² <http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183&LangID=2>

datblygiadau, gan ostwng dwyseddau ac effeithio ar amwynder gweledol.

1.2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010), paragraff 8.4.3, yn nodi y bydd angen i awdurdodau lleol:

“Sicrhau bod eu safonau parcio yn adlewyrchu'r ddarpariaeth dtrafnidiaeth leol, eu bod wedi cael eu mabwysiadu gan yr awdurdodau unigol trwy gyfrwng canllawiau cynllunio atodol, a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus”

1.2.3 Mae'r safonau parcio ceir yn seiliedig ar y cyd-destunau canlynol:

- Cydnabyddiaeth fod argaeledd parcio yn dylanwadu ar ddewis dulliau teithio;
- Yr angen i ostwng dibyniaeth ar y car modur ac i hyrwyddo dulliau eraill o deithio;
- Gwneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus sydd eisoes yn bodoli
- Cydnabyddiaeth o effaith darpariaeth parcio mewn ardaloedd sy'n sensitif yn weledol

1.2.4 Mae'r canllawiau hyn yn atodiad i ofynion polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol:

- 30 Amwynder
- 52 Trafnidiaeth Gynaliadwy
- 53 Effeithiau Traffig

1.2.5 Arweinir datblygiad yn y Parc Cenedlaethol gan bolisïau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gwaith y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yw cefnogi'r polisïau uchod trwy ddarparu canllawiau manwl ar yr hyn a ystyrir yn ddarpariaeth parcio digonol mewn datblygiadau newydd.

1.3 Safonau Parcio'r Sir

1.3.1 Mabwysiadwyd Safonau Parcio Cymru (2008) Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (2008) gan Gonsortium Trafnidiaeth Integredig De Orllewin Cymru (SWWITCH). Mae'r safonau parcio o fewn y CCA hyn wedi eu cysylltu at fframwaith parcio rhanbarthol Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, 'Safonau Parcio Cymru' (2008), ond maen nhw'n benodol i Sir Benfro, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol. Gan ystyried cymeriad gwledig cymhleth Sir Benfro, a'i chyfoeth o dreftadaeth adeiledig a naturiol, ac ar yr argymhelliad yn Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007), paragraff 4.3, defnyddiwyd y fframwaith parcio rhanbarthol fel man cychwyn cyffredin, ac mae safonau parcio wedi esblygu ohono, ar sail materion o natur lleol.

- 1.3.2 Mae yna wahaniaeth sylfaenol yng nghanllawiau Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, o gymharu â'r arfer flaenorol, gyda'r angen i Awdurdodau Lleol gyflwyno system o barthau at ddibenion parcio. Gan ddibynnu ar y math o ddatblygiad a gynigir, mae yna ofynion parcio penodol ar gyfer pob parth.
- 1.3.3 Mae safonau o fewn y ddogfen yn nodi **lefel uchaf** y gofynion parcio mewn datblygiadau newydd. Gellir cyflwyno parcio hyd at y lefel hwn. Ble mae lleoliad neu fath y datblygiad yn golygu nad yw safon a osodir yn addas, fe fydd angen cynllun teithio³ gan yr ymgeisydd. Mae parthau parcio 2-6 yn seiliedig ar gynaliadwyedd lleoliad, o ran ei fynediad at wasanaethau, h.y. po lleiaf yw'r gwasanaethau, yr uchaf fydd yr angen am barcio. Mae gwasanaethau wedi cael eu dewis a'u pwysoli yn unol ag 'Arolwg o Gyfleusterau Gwledig' Cyngor Sir Penfro (2010) a 'Phapur Graddfa a Lleoliad Tyfiant' Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2009). Pennwyd gwasanaethau yn wasanaethau Lefel Uchaf neu'n wasanaethau Pwysig, gan ddibynnu ar eu gwerth o ran cynhyrchu teithiau neu os ydyn nhw'n darparu opsiwn ymarferol arall yn lle teithio mewn car⁴.
- 1.3.4 Mae ardaloedd sy'n cael eu pennu fel ardaloedd parth Parcio 1 yn ardaloedd a ystyrir fel rhai sydd o werth hanesyddol a/neu weledol, na ddylai darpariaeth parcio gael effaith arnynt. Gellir gweld mapiau yn dangos ardaloedd Parth 1 yn Atodiad 1.
- 1.3.5 Mae'r safonau'n berthnasol ar draws y Sir, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid darparu mwy na'r safon uchaf, ac mewn achosion o'r fath, fe fyddai'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos yr angen am barcio ychwanegol i raddau sy'n bodloni'r awdurdod cynllunio.

1.4 Parthau Parcio Sir Benfro

1.4.1 Parth 1

Ardaloedd penodol o fewn Ardaloedd Cadwraeth a bennir fel rhai sydd ag atyniad gweledol a/neu werth hanesyddol sylweddol.

1.4.2 Parth 2

Ceir darpariaeth dda mewn ardaloedd yr ystyrir eu bod o fewn y parth hwn, o ran gwasanaethau, cyfleusterau a dulliau cynaliadwy o deithio, er enghraifft canol tref. Rhaid bod datblygiad newydd o fewn y parth hwn o fewn pellter cerdded o 400m⁵ i 4+ o Wasanaethau Lefel Uchaf.

³ Cynllunio Teithio – cyflwynwyd gan yr Adran Trafnidiaeth fel strategaeth rheoli hir dymor ar gyfer deiliad safle sy'n ceisio trosglwyddo amcanion trafndiaeth gynaliadwy i reoli'r galw i symud ac i wella hygyrchedd i bawb. Cynhyrchir pob Cynllun Teithio gan yr ymgeisydd.

⁴ Gellir gweld rhestr lawn o wasanaethau Lefel Uchaf a Phrif wasanaethau yn Atodiad 2.

⁵ Mae Canllawiau'r Sefydliad Priffyrdd a Chludiant ar Ddarparu Siwrneiau ar Droed (2000) yn awgrymu bod y pellter targed ar gyfer amrywiaeth o gyfleusterau rhwng 300m a 600m, a bod y pellter derbyniol ar gyfer yr un cyfleusterau rhwng 600m a 1000m.

1.4.3 **Parth 3**

Mae ardaloedd yr ystyrir eu bod o fewn y parth hwn yn debygol o fod yn rhai maestrefol, o ran mynediad at wasanaethau, cyfleusterau a dulliau cynaliadwy o deithio. Rhaid bod datblygiad newydd yn y parth hwn o fewn pellter cerdded o 800m i 4+ o Wasanaethau Lefel Uchaf.

1.4.4 **Parth 4**

Mae ardaloedd yr ystyrir eu bod o fewn y parth hwn yn debygol o gael darpariaeth ddigonol⁶ o wasanaethau a chyfleusterau. Rhaid bod gan ddatblygiad newydd o fewn y parth hwn sgôr wedi'i bwysoli o 8 pwynt. Mae'r sgôr yn gallu cynnwys gwasanaethau Lefel Uchaf a/neu Brif wasanaethau, naill ai ar eu pen eu hun, neu yn gyfuniad o'r ddau.

1.4.5 **Parth 5**

Mae ardaloedd yr ystyrir eu bod o fewn y parth hwn yn debygol o fod yn Ganolfannau Gwledig gyda darpariaeth gyfyngedig o ran darpariaeth gwasanaethau, cyfleusterau a dulliau teithio eraill. Rhaid bod gan ddatblygiad newydd o fewn y parth hwn sgôr wedi'i bwysoli o 4-7 pwynt. Mae'r sgôr yn gallu cynnwys gwasanaethau Lefel Uchaf a/neu Brif wasanaethau, naill ai ar eu pen eu hun, neu fel cyfuniad.

1.4.6 **Parth 6**

Mae ardaloedd yr ystyrir eu bod o fewn y parth hwn yn debygol o fod yn Ganolfannau Gwledig bach ac yn adeiladau unigol gwasgaredig, ble mae angen defnyddio car ar gyfer pob siwrnai heblaw am rai lleol iawn. Rhaid bod gan ddatblygiad newydd o fewn y parth hwn sgôr wedi'i bwysoli o 0-3 pwynt. Mae'r sgôr yn gallu cynnwys gwasanaethau Lefel Uchaf a/neu Brif wasanaethau, naill ai ar eu pen eu hun, neu fel cyfuniad.

⁶ Mae 'digonol' yn cyfeirio at lefel y gwasanaeth a'r cyfleuster a ddisgwyliir mewn Canolfan sydd efallai hefyd â bws neu orsaf drenau hygyrch.

2. SAFONAU PARCIO UCHAF AR GYFER DATBLYGIADAU NEWYDD

2.1 Preswyl: Adeiladu o'r Newydd a Thrawsnewid Eiddo

Tabl 1 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Preswylwyr	Ymwelwyr	Parcio i'r Anabl (lleiafswm)
Tai a Fflatiau Diben Cyffredinol	Dim	Dim	Amh.
Tai â Diben Arbennig	Dim	Dim	Amh.

Tabl 2 - Parth Parcio 2-4

Math o Ddatblygiad	Preswylwyr	Ymwelwyr	Parcio i'r Anabl (lleiafswm)
Tai	2 gofod i bob tŷ	Dim	Amh.
Fflatiau	1 gofod i bob fflat	Dim	Amh.
Trawsnewid tŷ yn hostel preswyl	1 gofod i bob staff preswyl 1 gofod i bob 3 staff sydd ddim yn rhai preswyl	Dim	6% o'r ddarpariaeth gyfan
Anheddau hunangynhaliol ar gyfer yr henoed (gyda warden)	1 gofod i bob 4 uned 1 gofod ar gyfer y warden 1 gofod i bob 2 aelod o staff cynorthwyol	1 gofod i bob 4 uned	6% o'r ddarpariaeth gyfan
Llety i fyfyrwyr, a adeiladwyd at y diben hwn, o dan reolaeth coleg/prifysgol	1 gofod i bob 4 uned 1 gofod i'r warden 1 gofod i bob 2 aelod o staff cynorthwyol	1 gofod i bob 10 gwely (i fyfyrwyr a/neu ymwelwyr)	6% o'r ddarpariaeth gyfan
Cartrefi plant preswyl /cartrefi'r henoed /cartrefi nyrsio	1 gofod i bob aelod o staff preswyl 1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd	1 gofod i bob 4 gwely	6% o'r ddarpariaeth gyfan

	ddim yn rhai preswyl		
--	----------------------	--	--

Tabl 3 - Parth Parcio 5

Math o Ddatblygiad	Preswylwyr	Ymwelwyr	Parcio i'r Anabl (lleiafswm)
Tai	3 gofod i bob tŷ	1 gofod i bob 5 annedd	Amh.
Fflatiau	1 gofod i bob fflat	1 gofod i bob 5 annedd	Amh.
Tai â Diben Arbennig			6% o'r ddarpariaeth gyfan
Trawsnewid tai yn hostel preswyl	1 gofod i bob aelod o staff preswyl 1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl	Dim	6% o'r ddarpariaeth gyfan
Anheddau hunangynhaliol ar gyfer yr henoed (gyda warden)	1 gofod i bob 4 uned 1 gofod ar gyfer y warden 1 gofod i bob 2 aelod o staff cynorthwyol	1 gofod i bob 4 uned	6% o'r ddarpariaeth gyfan
Llety i fyfyrwyr, a adeiladwyd at y diben hwn, o dan reolaeth coleg/prifysgol	1 gofod i bob 4 uned 1 gofod ar gyfer y warden 1 gofod i bob 2 aelod o staff cynorthwyol	1 gofod i bob 10 gwely (ar gyfer myfyrwyr a/neu ymwelwyr)	6% o'r ddarpariaeth gyfan
Cartrefi plant preswyl /cartrefi'r henoed /cartrefi nyrsio	1 gofod i bob aelod o staff preswyl 1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl	1 gofod i bob 4 gwely	6% o'r ddarpariaeth gyfan

Tabl 4 - Parth Parcio 6

Math o Ddatblygiad	Preswylwyr	Ymwelwyr	Parcio i'r Anabl
--------------------	------------	----------	------------------

Tai a Fflatiau â Diben Arbennig	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio
Tai â Diben Arbennig	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio

2.1.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio ar gyfer adeiladau preswyl sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd ac adeiladau sy'n cael eu trawsnewid, i bob parth

- a. Mae garejys ond yn gallu cael eu cyfrif fel gofodau parcio os ydyn nhw'n clirio'r dimensiynau mewnol, fel a awgrymir gan Llawlyfr Strydoedd 2, ar gyfer garej sengl, o 6m x 3m. Os oes angen mynediad ar gyfer yr anabl, rhaid cynyddu'r dimensiynau hyn i 6m x 3.8m. Rhaid bod gan bob eiddo sydd â garej ddreif 6m o hyd hefyd, sydd o led o 3.6m neu fwy.
- b. Rhaid cynllunio gofodau parcio i ymwelwyr fel rhan annatod o unrhyw ddatblygiad ble mae ei angen, a rhaid iddo ystyried anghenion yr anabl.
- c. Mewn perthynas â chartrefi preswyl ar gyfer yr henoed a chartrefi nyrsio, rhaid bod digon o ofodau gweithredol ar gael yn agos at yr adeilad er mwyn caniatáu i ambiwlans gyrraedd a gadael trwy yrru yn ei flaen, heb rifysio.
- ch. Bydd y safonau parcio isaf sydd eu hangen ar gyfer llety i fyfyrwyr sydd wedi ei adeiladu at y diben hwnnw, yn seiliedig ar amod sy'n gofyn am gytundeb tenantiaeth cyfreithiol, i atal myfyrwyr rhag parcio ar strydoedd cyfagos o fewn radiws o 3 milltir i adeilad y llety.

2.2 Datblygiad Swyddfeydd

Tabl 5 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o ddatblygiad Swyddfeydd	Dim	Dim

Tabl 6 - Parth Parcio 2

Datblygiad	Gofyniad	Datblygiad	Gofyniad
Swyddfa (<1000m ²)	1 gofod i bob 35m ²	Swyddfa (>1000m ²)	1 gofod i bob 60m ²

Tabl 7 - Parth Parcio 3

Datblygiad	Gofyniad	Datblygiad	Gofyniad
------------	----------	------------	----------

Swyddfa (<1000m ²)	1 gofod i bob 25m ²	Swyddfa (>1000m ²)	1 gofod i bob 40m ²
--------------------------------	--------------------------------	--------------------------------	--------------------------------

Tabl 8 - Parth Parcio 4

Datblygiad	Gofyniad	Datblygiad	Gofyniad
Swyddfa (<1000m ²)	1 gofod i bob 20m ²	Swyddfa (>1000m ²)	1 gofod i bob 25m ²

Tabl 9 - Parth Parcio 5-6

Datblygiad	Gofyniad	Datblygiad	Gofyniad
Swyddfa (<1000m ²)	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Swyddfa (>1000m ²)	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio
Swyddfa (<1000m ²)	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Swyddfa (>1000m ²)	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio

Tabl 10 – Pob Parth Parcio

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio beiciau modur
Pob math o ddatblygiad	5% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir
Math o Ddatblygiad	Darpariaeth Parcio i'r Anabl (lleiafswm)
Pob math o ddatblygiad	6% o'r ddarpariaeth gyfan neu, ble'n berthnasol, wedi ei gytuno trwy Gynllun Teithio

2.2.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio ar gyfer Swyddfeydd ar gyfer pob parth

- a. Ar gyfer safleoedd hyd at uchafswm o 200m² o arwynebedd llawr gros, caniateir cynnydd o 20% heb angen parcio ychwanegol. Gellir ond gwneud y lwfans hwn unwaith, a rhaid ail-leoli unrhyw barcio sy'n cael ei ddadleoli.

2.3 Datblygiad Siopau

Tabl 11 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o ddatblygiad siopau	Dim	Dim

Tabl 12 - Parth Parcio 2

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Siopau (<200m ²)	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 60 m ²
Siopau ac archfarchnadoedd bach (201-1000m ²)	2 ofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 40m ²
Siopau ac archfarchnadoedd bach (1001m ² -2000m ²)	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 40m ²
Archfarchnadoedd ac uwchfarchnadoedd (bwyd yn bennaf) (>2000m ²)	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 14m ²

Tabl 13 - Parth Parcio 3-4

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Siopau (<200m ²)	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 60 m ²
Siopau ac archfarchnadoedd bach (201m ² -1000m ²)	2 ofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 20m ²
Siopau ac archfarchnadoedd bach (1001m ² -2000m ²)	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 20m ²
Archfarchnadoedd ac uwchfarchnadoedd (bwyd yn bennaf) (>2000m ²)	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 14m ²

Tabl 14 - Parth Parcio 5-6

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Siopau (Pob maint)	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio

Tabl 15 – Pob Parth Parcio

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer beiciau modur
Pob math o ddatblygiad	5% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir
Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer yr Anabl (lleiafswm)
Pob math o ddatblygiad	6% o'r ddarpariaeth gyfan neu ble'n

	briodol wedi ei gytuno trwy Gynllun Teithio
--	---

2.3.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio ar gyfer siopau ar gyfer pob parth

- a. Ar gyfer safleoedd hyd at uchafswm o arwynebedd llawr gros 200m², caniateir cynnydd o 20% heb angen parcio ychwanegol. Gellir ond gwneud y lwfans hwn unwaith, a rhaid ail-leoli unrhyw barcio sy'n cael ei ddadleoli.

2.4 Warysau Manwerthu a Garejys

Tabl 16 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o ddatblygiad warws a garej	Dim	Dim

Tabl 17 - Parth Parcio 2-5

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Warysau Manwerthu (dim bwyd) (dim DIY) (>1000m ²)*	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 30m ²
Warysau Manwerthu (DIY & Chanolfannau Garddio) (>1000m ²)*	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 20m ²
Nwyddau Adeiladu (Masnach a Manwerthu)	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 80m ²
Warysau Talu a Chludo (Masnach yn Unig) (>1000m ²)*	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 80m ²
Garejys	1 gofod car/lori i bob bae gwasanaethu car/lori	2 ofod car/lori i bob bae gwasanaethu
Gorsafoedd Gwasanaethu Ceir (egsosts, MOT, teiars ayb)	1 gofod lori a 20% o'r ALIG	2 ofod car/lori i bob bae gwasanaethu
Gorsafoedd Petrol	1 gofod ar gyfer tancer petrol	Gofodau at ddefnydd ategol (e.e. peiriant golchi ceir awtomatig)
Safleoedd Gwerthu Ceir	1 gofod ar gyfer cerbyd cludo ceir	1 gofod i bob 50m ² o ardal manwerthu (mewnol ac allanol)
Safleoedd Gwerthu Beiciau Modur	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 50m ² o ardal manwerthu (mewnol ac allanol)

Ysgolion Gyrru, Hurio Preifat, Hurio Cerbydau, Tacsis Trwyddedig	1.25 gofod i bob cerbyd a weithredir	1 gofod i bob 3 aelod o staff cynorthwyol
--	--------------------------------------	---

* Cynigion o dan 1000m² trwy drefniant trwy gynllun teithio.

Tabl 18 - Parth Parcio 6

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o ddatblygiad warws a garej	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio	Trwy gytundeb trwy Gynllun Teithio

Tabl 19 - Parthau parcio 2-6

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer beiciau modur
Pob math o ddatblygiad	5% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir
Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer yr Anabl (lleiafswm)
Pob math o ddatblygiad	6% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir neu ble'n briodol wedi ei gytuno trwy Gynllun Teithio

2.4.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio Warysau Manwerthu a Garejys ar gyfer pob parth

- a. Ar gyfer safleoedd hyd at uchafswm arwynebedd llawr gros o 200m², caniateir cynnydd o 20% heb angen parcio ychwanegol. Gellir ond gwneud y lwfans hwn unwaith, a rhaid ail-leoli unrhyw barcio sy'n cael ei ddadleoli.

2.5 Diwydiant a Warysau Diwydiannol

Tabl 20 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o ddatblygiad diwydiant a Warysau Diwydiannol	Dim	Dim

Tabl 21 - Parthau parcio 2-6

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Diwydiant Bach (<1000m ²)	1 gofod fan	1 gofod
Diwydiant Bach (<235m ²)	1 gofod fan	2 ofod

Diwydiant	Gweler Nodyn 1	1 gofod i bob 120m ²
Diwydiant Technegol lawn	Gweler Nodyn 1	1 gofod i bob 35m ²
Warws Diwydiannol	Gweler Nodyn 1	1 gofod i bob 140m ²
Warws Storio	1 gofod masnachol i bob 500m ²	Dim
Canolfannau Dosbarthu (<1000m ²)	35% o'r ALIG	1 gofod i bob 120m ²
Canolfannau Dosbarthu (>1000m ²)	25% o'r ALIG	1 gofod i bob 120m ²

Tabl 22 – Pob Parth Parcio

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer beiciau modur
Pob math o ddatblygiad	5% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir
Math o Ddatblygiad	Parcio i'r Anabl (lleiafswm)
Pob math o ddatblygiad	6% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir neu ble'n briodol wedi ei gytuno trwy Gynllun Teithio

2.5.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio Diwydiant a Warysau Diwydiannol ar gyfer pob Parth

- a. Gofynion gweithredol:

Tabl 23

ALIG m ²	m ² lleiaf	ALIG m ²	m ² lleiaf	ALIG m ²	m ² lleiaf
100	70	500	100	1001	150
250	85	1000	150	2000	200

ALIG Dros 2,000 m², dylid derbyn bod yr ardaloedd gweithredol lleiaf yn 10% o'r ALIG.

- b. Ar gyfer safleoedd sydd ag uchafswm gofod llawr gros o 235m², caniateir cynnydd o 20% heb angen parcio ychwanegol. Gellir ond gwneud y lwfans hwn unwaith, a rhaid ail-leoli unrhyw barcio sy'n cael ei ddadleoli.
- c. Dylai cerbydau fod yn gallu mynd i mewn i'r safle, a'i adael, trwy yrru ymlaen, h.y. heb rifyrsio.
- ch. Diffinnir terfyn uchaf y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol o 235m² fel y terfyn uchaf ar gyfer maint yr uned, i annog cwmnïau newydd sydd angen safleoedd maint garej. Diffinnir unedau mwy fel "Diwydiant".

2.6 Mannau Adloniant

Tabl 24 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o ddatblygiad	Dim	Dim

Tabl 25 - Parth Parcio 2-6

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Canolfannau Chwarae i Blant	1 gofod i bob 3 aelod o staff	1 gofod i bob 20m ² o ardal chwarae
Neuaddau Ymgynnull (Masnachol e.e. Neuadd Bingo)	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 8 m ²
Neuaddau Ymgynnull (Cymdeithasol) e.e. Canolfan Gymunedol Clwb Didrwydded	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 5 sedd
Sinemâu, Theatrau a Chanolfannau Cynhadledd	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 5 sedd
Stadia	1 cerbyd masnachol	1 gofod i bob 15 sedd

Tabl 26 – Pob Parth Parcio

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer beiciau modur
Pob math o ddatblygiad	5% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir

Tabl 27 – Parcio i'r Anabl

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer yr Anabl (lleiafswm)
Pob math o ddatblygiad	6% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir neu, ble'n briodol, wedi ei gytuno trwy Gynllun Teithio

2.6.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio Mannau Adloniant ar gyfer pob parth

- Dylai cerbydau fod yn gallu mynd i mewn i'r safle, a'i adael, trwy yrru ymlaen, h.y. heb rifyrsio.

2.7 Gwestai a Bwytaï

Tabl 28 – Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o ddatblygiad	Dim	Dim

Tabl 29 – Parth Parcio 2-6

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Gwestai	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl ac 1 gofod i bob ystafell wely
Tafarndai a Chlybiau Trwyddedig	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl ac 1 gofod i bob 5m ² o ardal gyhoeddus, gan gynnwys yr ardal gweini
Bwytaï	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl ac 1 gofod i bob 7m ² o ardal bwyta
Caffis a Bwytaï Gyrru Trwyddo	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl ac 1 gofod i bob 14m ² o ardal bwyta
Cludfwyd Poeth	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl a digon o barcio ar y stryd gerllaw i gwsmeriaid
Caffis i Weithwyr Trawsgludo	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 3 aelod o staff sydd ddim yn staff preswyl ac 1 gofod i gerbydau masnachol i bob 2 sedd

Tabl 30 – Pob Parth Parcio

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer beiciau modur
Pob math o ddatblygiad	5% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir

Tabl 31 – Parcio i'r Anabl

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer yr Anabl (lleiafswm)
Pob math o ddatblygiad	6% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir neu ble'n briodol wedi ei gytuno trwy Gynllun Teithio

2.7.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio Gwestai a Bwyta i ar gyfer pob parth

- Efallai y bydd y gofynion anweithredol ar gyfer bwyta a chaffis mewn ardaloedd siopa sydd wedi cael eu sefydlu yn cael eu llacio os oes modd dangos eu bod yn gysylltiedig â'r ardal siopa, neu ble mae bwyta o'r fath yn cael eu defnyddio'n helaeth gyda'r hwyr pan fydd digon o le parcio ar gael yn yr ardal. Ond, rhaid darparu digon o lefydd parcio i staff yn y cefn.
- Rhaid bod gan fwytai sydd â chyfleusterau gyrru trwyddo ble'r ydych yn gallu archebu a chasglu bwyd o'ch car, fynediad ar wahân at y diben hwn, a rhaid bod o leiaf 6 gofod aros.
- Dylai cerbydau fod yn gallu mynd i mewn i'r safle, a'i adael, trwy yrru ymlaen, h.y. heb rifyrsio.

2.8 Sefydliadau Cymunedol

Tabl 32 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob math o sefydliad datblygu cymunedol	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	Dim

Tabl 33 - Parth Parcio 2-6

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Ysbytai	Cerbydau hanfodol yn ôl yr angen	2.5 gofod i bob gwely
Canolfannau lechyd a Meddygfeydd	1 gofod i bob ymarferydd	1 gofod i bob 3 aelod o staff cynorthwyol a 3 gofod i bob ymarferydd
Eglwysi a Mannau Addoli	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 10 sedd neu 1 gofod i bob 8m ² o ofod llawr gweddïo
Capeli Gorffwys	3 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	
Trefnwyr Angladdau	2 ofod ar gyfer cerbydau	1 gofod i bob 2 aelod o

	masnachol	staff
Canolfannau Hamdden Cyhoeddus	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 2 ddefnyddiwr cyfleuster ac 1 gofod i bob 3 arsylwydd
Clybiau Ffitrwydd, Clybiau Hamdden a Chlybiau Chwaraeon	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 2 ddefnyddiwr cyfleuster
Marinas	1 gofod car a threlar	1 gofod i bob angorfa a man storio trelar
Llyfrgelloedd	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 45m ²
Rhandiroedd	1 gofod i bob 4 defnyddiwr cyfleuster	1 gofod i bob 4 defnyddiwr cyfleuster

2.9 Sefydliadau Addysgol

Tabl 34 - Parth Parcio 1

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Pob Sefydliad Addysgol	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	Dim

Tabl 35 - Parth Parcio 2-6

Math o Ddatblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Meithrinfeydd Dydd a <i>Creche</i> , (safleoedd a adeiladwyd o'r newydd)	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob 2 aelod o staff llawn amser
Meithrinfeydd Dydd a <i>Creche</i> , (eiddo a drawsnewidiwyd)	Wedi ei gynnwys yn y gofynion anweithredol	1 gofod i bob 2 aelod o staff llawn amser
Ysgolion Meithrin/Babanod/Cynradd	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob aelod o staff addysgu a 3 gofod i ymwelwyr
Ysgolion Uwchradd	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob aelod o staff addysgu, 1 gofod i bob 2 aelod o staff cynorthwyol a 3 gofod i ymwelwyr. Mae angen gofod parcio bysiau hefyd
Colegau Addysg Uwch/Bellach	1 gofod ar gyfer cerbydau masnachol	1 gofod i bob aelod o staff addysgu, 1 gofod i bob 2 aelod o staff cynorthwyol, 1 gofod i bob 8 myfyriwr a 5

		gofod i ymwelwyr.
--	--	-------------------

Tabl 36 – Pob parth Parcio

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth parcio ar gyfer yr Anabl (lleiafswm)
Pob math o ddatblygiad	6% o'r ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir neu ble'n briodol wedi ei gytuno trwy Gynllun Teithio

2.10 Safonau Isaf Parcio Beiciau

Tabl 37 – Parcio Beiciau

Math o Ddatblygiad	Darpariaeth Parcio Beiciau
a) Preswyl	
Fflatiau	1 stondin i bob 2 ystafell wely
Llety myfyrwyr a adeiladwyd at y diben	1 stondin i bob 2 ystafell wely
Llety hunangynhaliol 'r henoed	1 stondin i bob 20 gofod gwely
b) Swyddfeydd	
Swyddfeydd	1 stondin i bob 200m ²
Canolfannau Galwadau	1 stondin i bob 150m ²
c) Siopau	
Siopau < 200m ²	1 stondin i bob 100m ²
Siopau 201m ² -1000m ² : Bwyd	1 stondin i bob 200m ²
Dim bwyd	1 stondin i bob 200m ²
Archfarchnadoedd	1 stondin i bob 200m ²
d) Warysau Manwerthu	
Warysau Manwerthu: Dim bwyd	1 stondin i bob 500m ²
Warysau Talu a Chludo	1 stondin i bob 500m ²
Marchnadoedd Awyr Agored	1 stondin i bob 500m ²
Garejys	1 stondin i bob 250m ²
Safleoedd Gwerthu Ceir	1 stondin i bob 1000m ²
e) Diwydiant a Warysau Diwydiannol	
Diwydiant	1 stondin i bob 200m ²
Warysau Diwydiannol a Chanolfannau Storïo	1 stondin i bob 200m ²
f) Mannau Adloniant	
Neuaddau Ymgynnull:	

Masnachol Cymdeithasol	1 stondin i bob 10 aelod o staff 1 stondin i bob 10 sedd
Sinemâu, Theatrau a Chanolfannau Cynhadledd	1 gofod i bob 10 aelod o staff
Stadia	1 stondin i bob 10 sedd
g) Gwestai a Bwyta	
Gwestai	1 stondin i bob 5 ystafell wely
Tafarndai	1 stondin i bob 10 aelod o staff
Bwyta a Chaffis (Pob math)	1 stondin i bob 10 aelod o staff
h) Sefydliadau Cymunedol	
Ysbytai	1 stondin i bob 20 gwely
Canolfannau lechyd a Meddygfeydd	1 stondin i bob ystafell ymgynghori
Eglwysi a Mannau Addoli	1 stondin i bob 50m ² o ofod llawr cyhoeddus
Canolfannau Hamdden Cyhoeddus	1 stondin i bob 5 aelod o staff
Clybiau Ffitrwydd	1 stondin i bob 5 aelod o staff
Clybiau Hamdden a Chlybiau Chwaraeon	1 stondin i bob 5 aelod o staff
Llyfrgelloedd	1 stondin i bob 2 aelod o staff
i) Sefydliadau Addysgol	
Meithrinfeydd Dydd a <i>Creche</i>	2 stondin/30 plentyn
Ysgolion Meithrin, Babanod a Chynradd	1 stondin i bob 5 aelod o staff ac 1 stondin i bob 50 plentyn
Ysgolion Uwchradd a Cholegau Addysg Bellach	1 stondin i bob 5 aelod o staff, 1 stondin i bob 100 o blant ac 1 stondin i bob 6 myfyriwr 17 oed

2.10.1 Nodiadau yn ymwneud â safonau parcio beiciau ar gyfer pob parth

- Ble mae yna lefel uchel o fyfyrwyr rhan amser (sy'n cael eu rhyddhau i fynd i'r coleg), mae'r safonau ar gyfer Colegau Addysg Uwch/Prifysgolion yn cynyddu i 1 i bob 3 myfyriwr.
- Dylai'r ddarpariaeth parcio beiciau fod yn ddiogel a dan do, a dylai fod yn agos at y fynedfa.

3 ATODIADAU

3.1 Atodiad 1 - Ardaloedd Parth 1

- a) Cwm Solfach
- b) Solfach Uchaf
- c) Tref Gaerog Dinbych-y-pysgod
- ch) Tyddewi
- d) Saundersfoot
- dd) Trefdraeth
- e) Maenorbŷr
- f) Aber Bach

3.2 Atodiad 2 - Pwysoli Gwasanaethau⁷

Ffig 1

	Gwasanaethau Lefel Uchaf					Prif Wasanaethau			
Math o Wasanaeth	Siop Fwyd ⁸	Swyddfa'r Post	Gwasanaeth Trên Dyddiol ⁹	Gwasanaeth bws Rheolaidd ¹⁰	Ysgol Babanod / Cynradd	Gorsaf betrol / siop fwyd a nwyddau	Tafarn	Fferyllfa	Neuadd/Canolfan neu Fan Cyfarfod Cymunedol
Darpariaeth gwasanaeth wedi'i bwysoli	5 pwynt	3 pwynt	3 pwynt	3 pwynt	3 pwynt	2 pwynt	2 pwynt	2 pwynt	2 pwynt

⁷ Mabwysiadwyd sgorau gwasanaethau a sgorau cysylltiedig o 'Bapur Graddfa a Lleoliad Tyfiant' (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 2009) a'r 'Arolwg o Gyfleusterau Gwledig' (Cyngor Sir Penfro, 2010). Mae'r ddogfen olaf wedi elwa o broses ymgynghori gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ble cytunwyd ar y gwasanaethau a nodwyd, a'r pwysau a roddwyd iddynt.

⁸ Mae 'Siop Fwyd' yn cyfeirio at y math o siop y mae rhywun yn mynd iddi i brynu eitemau bwyd 'bob dydd'

⁹ Er mwyn bod yn wasanaeth trên dyddiol, rhaid bod gwasanaeth ag o leiaf 1 siwrnai yn gweithredu rhwng 8.00yb a 10yb a rhwng 3.00yp a 5yp. Rhagwelir y bydd gwasanaeth cyson rhwng yr amserau hyn yn ffordd realistig o deithio yn lle'r car, er mwyn teithio i'r gwaith a'r ysgol.


¹⁰ Er mwyn bod yn wasanaeth bws dyddiol, rhaid bod gwasanaeth yn gweithredu bob hanner awr rhwng 8.00yb a 10yb a rhwng 3.00yp a 5yp. Rhagwelir y bydd gwasanaeth cyson rhwng yr amserau hyn yn cynnig dull arall o deithio, yn lle'r car, er mwyn teithio i'r gwaith a'r ysgol.

¹¹ Mae 'gorsaf betrol/siop fwyd leol' yn cyfeirio at y math o siop y bydd rhywun yn ymweld â hi ar gyfer eitemau bwyd i ychwanegu at eu siopa bwyd wythnosol.

3.3 Atodiad 3 - Maint Isaf Gofodau Parcio


Isafswm maint gofodau parcio safonol

Ffig 2



Isafswm maint i'w ddefnyddio gan berson sy'n gaeth i gadair olwyn


Ffig 3




3.4 Atodiad 4 - Cynllun ardaloedd parcio

Ffyrdd gwahanol o drefnu 12 gofod parcio

Ffig 4



Ffig 5



3.5 Atodiad 5 - Mynediad i'r Anabl


3.5.1 Erbyn hyn, mae gofyn fod pob adeilad cyhoeddus newydd yn hygyrch ac â chyfleusterau i bobl anabl, ble mae hyn yn rhesymol ac yn ymarferol. Mae gofynion Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a Deddf Cleifion Cronig, Personau Anabl (Diwygiad) 1976 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 yn berthnasol i amrywiaeth eang o adeiladau, gan gynnwys: swyddfeydd, siopau, banciau, swyddfeydd post, canolfannau chwaraeon, gwestai, bwytai a thafarndai, theatrau a sinemâu, canolfannau arddangos, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, neuaddau cymunedol ac eglwys; ynghyd â phob lleoliad addysg, gan gynnwys ysgolion, prifysgolion a cholegau. Nid yw'r rhestr hon yn un hollol drwyadl, ac mae mathau eraill o adeiladau yn gallu dod o dan delerau'r Ddeddf.

3.5.2 Rhaid i ddatblygwyr roi ystyriaeth ddyledus i'r agweddau canlynol. Ystyrir eu bod yn bwysig i bobl anabl.

- Argymhellir bod gofodau parcio sydd wedi eu gosod yn briodol yn cael eu darparu ar gyfer pobl ag anableddau, yn ddelfrydol o fewn 50 metr i'r cyfleuster y mae'r maes parcio yn ei wasanaethu, ac argymhellir eu bod yn ddigon o faint, a bod digon ohonynt,.
- Arwyddion ar gyfer llwybrau cerddwyr – wedi sefydlu'r lleoliad mwyaf cyfleus i barcio cerbydau pobl anabl, mae'n hanfodol fod y datblygwr yn dyfeisio system glir i ddangos y ffordd at y fynedfa briodol sy'n darparu ar gyfer pobl anabl, a'i fod yn gweithredu'r system honno.
- Dylai datblygwyr ystyried lefelau perthnasol gofodau parcio a lefelau llawr gorffenedig yn ofalus iawn, ar gam cynnar yn y broses gynllunio, fel bod modd cadw lefel llwybr sy'n agos at fod yn wastad (yn ddelfrydol graddiant o lai na 5%) rhwng y ddau, os yn bosib.


Dimensiynau safonol gofodau parcio ceir yw: 4.8m x 3.6m

Ffig 6



Ffyrdd amrywiol o drefnu gofodau ar gyfer pobl anabl

Ffig 7



3.6 Atodiad 6 - Baeau Cerbydau

3.6.1 Rhaid bod y bae yn ddigon mawr ac wedi ei leoli mewn ffordd sy'n sicrhau bod y cerbyd yn gallu cael ei symud o fewn y safle, e.e. mae lori anhyblyg 12m angen isafswm o 105m² i'w galluogi i adael safle trwy yrru ymlaen, h.y. heb rifyrsio. Gellir cael manylion pellach ynghylch arferion cynllunio da mewn dogfennau Safonau Cynllunio Awdurdodau Priffyrdd perthnasol neu 'Designing for Deliveries', Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau, 1998.

• Cerbydau Cymalog	16.5m x 2.55m
• Cerbydau Llwyth Isel Cymalog	18.0m x 2.55m
• Cerbydau Anhyblyg	12.0m x 2.55m
• Bysiau a Choetsis (Dwy Echel)	13.5m x 2.55m
• Bysiau a Choetsis (Tair Echel)	15.0m x 2.55m
• Bysiau a Choetsis (Cymalog)	18.75m x 2.55m

3.6.3 Cerbydau Rheweiddiedig, uchafswm y lled a ganiateir yw 2.65m

3.6.4 Dylai pob cerbyd fod yn gallu mynd i mewn i'r safle, a'i adael, trwy yrru ymlaen, h.y. heb rifyrsio

3.6.5 Ceir canllawiau pellach ar gynlluniau parcio yn Llawlyfr Strydoedd 2¹²

¹² <http://www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/manforstreets/>